**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 14 Gorffennaf 2011 |
| **TEITL** | Cynllun Addysg Gymraeg Gwynedd |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Cynllun Addysg Gymraeg Cyngor Gwynedd yn ffurfiol |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn copi o'r Cynllun Addysg fel arwydd o ymrwymiad Y Cyngor i'w weithrediad. |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd Liz Saville Roberts |

## CEFNDIR

Mae'n bleser gen i gyflwyno i'ch sylw gopi o Gynllun Addysg Gymraeg Cyngor Gwynedd a gyhoeddir yn ffurfiol yng nghyfarfod y Cyngor heddiw.

Ar ôl cyfnod o drafod ac ymgynghori manwl ar y cynllun drafft fe gyflwynwyd y drafft terfynol i sylw Bwrdd Yr Iaith Gymraeg ac fe'i cymeradwywyd ganddynt ar 30 Mehefin 2011.

Yn ei lythyr atom fe noda Prif Weithredwr Bwrdd Yr Iaith fod Y Bwrdd yn croesawu'r targedau a geir yn y Cynllun ac yn edrych ymlaen i barhau i gydweithio efo'r Awdurdod yn ystod y cyfnod o weithredu'r targedau a monitro cynnydd nes y daw trefniadau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Strategol Y Gymraeg i rym.

Cyn i ni anfon y drafft terfynol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg fe ofynnodd Is-bwyllgor Iaith Y Cyngor i mi drefnu i chi fel Aelodau Etholedig dderbyn copi yr un o'r Cynllun Addysg wedi iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnaf felly i chi fel Aelodau Etholedig dderbyn eich copi o'r ddogfen hon a hynny fel arwydd o'n hymrwymiad i weld yr hyn a nodir ynddi yn cael ei gyflawni ac er mwyn i bawb ohonom gyfrannu at y trafodaethau a'r gweithredu ymhob un o'r sefydliadau addysgol sy'n gyfrifoldeb inni.

Gofynnaf yn garedig i chi hefyd dderbyn copi o Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd fel dogfen arwyddocaol i osod cyfeiriad i'n gwaith o ddatblygu defnydd cymdeithasol plant Gwynedd o'r Gymraeg.

***(Gofynnir i chi fel Aelodau Etholedig fynd i nôl eich copïau o'r Cynllun Addysg a'r Siarter Iaith o'ch tyllau colomennod cyn y cyfarfod os gwelwch yn dda).***